

Astudiaethau Plentyndod - Gradd Sylfaen (Amser-Llawn)

Mae'r Gradd Sylfaen mewn Astudiaethau Plentyndod yn rhaglen Addysg Uwch ddwy flynedd, amser llawn, sy'n archwilio datblygiad, dysgu a lles plant a phobl ifanc o'u genedigaeth hyd at 18 oed. Mae'r cwrs hefyd yn darparu llwybr i symud ymlaen i raglen BSc (Anrh) i ddyfnhau ac ymestyn y wybodaeth hon.

Bydd y cwrs yn addas i fyfyrwyr sydd am ddatblygu ystod eang o wybodaeth a sgiliau sy'n berthnasol i weithio gyda phlant a phobl ifanc a gall llwybrau gyrfa gynnwys: nyrsio pediatrig, addysgu, ymwelydd iechyd, gweithiwr meithrinfa yn y sectorau cyhoeddus ac annibynnol, gweithiwr cymdeithasol a phobl sy'n gweithio yn y sectorau cyfiawnder ieuencid a gorfodi'r gyfraith. Mae hyn wedi'i leoli yn yr adran Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant (HSC).

Mae'r cwrs hwn yn cael ei redeg mewn partneriaeth gyda Prifysgol De Cymru.

Cod UCAS: L520

Gofynion Mynediad

Mae'r meini prawf mynediad yn nodweddiadol, ond mae'r Coleg yn ystyried pob cais yn unigol, sy'n golygu y gallwn roi cynigion yn seiliedig ar gymwysterau, prof I personol a phro ad. Os oes gennych unrhyw ymholiadau mewn perthynas a'ch cynnig, cysylltwch a'n Ti^m Derbyniadau. Cynnig nodweddiadol: 2 Safon Uwch gradd D neu brof I MP/PPP mewn cymhwyster Lefel 3 BTEC a thri TGAU Gradd C neu uwch, yn cynnwys Saesneg a Mathemateg (neu gymwysterau cyfatebol).

Rhagolygon Gyrfa

Y llwybr dilyniant cydnabyddedig ar gyfer y cwrs hwn yw BSc (Anrh) mewn Astudiaethau Plentyndod - gradd atodol. Mae gan raddedigion gy eoedd cy ogaeth mewn ystod eang o ddisgyblaethau ym maes gofal plant, er enghraifft: gweithiwr chwarae, gweithiwr plentyn/ teulu, rheolwr gofal plant, a gweithwyr cymorth dysgu.

Modiwlau'r cwrs

Bydd y rhaglen yn cynnwys darlithoedd, seminarau, gwaith prosiect a sesiynau tiwtorial. Bydd rhaid i chi gyflawni cyflwyniadau ac aseiniadau ysgrifenedig wrth i chi gamu ymlaen trwy'r rhaglen. Mae un o'r modiwlau yn gofyn am aseiniad ymarferol.

Coleg Afan
Coleg Bannau Brycheiniog
Academi Chwaraeon Llandarcy
Canolfan Ragoriaeth Adeiladwaith Maesteg
Coleg Castell-nedd
Coleg Y Drenewydd
Coleg Pontardawe
Canolfan Adeiladwaith Abertawe

Afan College
Brecon Beacons College
Llandarcy Academy of Sport
Maesteg Construction Centre of Excellence
Neath College
Newtown College
Pontardawe College
Swansea Construction Centre



Mae modiwlau yn cynnwys:

Lefel 4 (Blwyddyn 1):

- Cymhwyso Theori at Ddatblygiad Cyfannol Plant a Phobl Ifanc
- Arweinyddiaeth a Chynhwysiant o fewn i Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar Blant
- Sgiliau Astudio ar gyfer AU
- Ymarfer Arweiniol mewn Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc
- Cyflwyniad i Ymchwil gyda Phlant a Phobl Ifanc

Lefel 5 (Blwyddyn 2):

- Iechyd a Llesiant Plant a Phobl Ifanc
- Diogelu Plant a Phobl Ifanc
- Materion y Cwricwlwm
- Chwarae a Hamdden
- Ymarfer Uwch mewn Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc

Er mwyn bodloni gofynion y cwrs, mae disgwyl i ddysgwyr ennill cyflogaeth wirfoddol neu gyflogedig mewn lleoliad lle y mae plant neu bobl ifanc, gan weithio o leiaf 200 awr dros gyfnod o 2 flynedd.

Asesiad

Bydd raid i chi gwblhau cy wniadau a thasgau ysgrifenedig wrth i chi symud ymlaen drwy'r rhaglen. Mae asesiad ymarferol yn ofynnol mewn un modiwl.

Costau Ychwanegol

Teithio i'ch lleoliad gwaith ac adref.

DULL ASTUDIO

FT

LLEOLIAD

Coleg Afan - 0330 818 8100

HYD Y CWRS

2 Flynedd

Coleg Afan
Coleg Bannau Brycheiniog
Academi Chwaraeon Llandarcy
Canolfan Ragoriaeth Adeiladwaith Maesteg
Coleg Castell-nedd
Coleg Y Drenewydd
Coleg Pontardawe
Canolfan Adeiladwaith Abertawe

Afan College
Brecon Beacons College
Llandarcy Academy of Sport
Maesteg Construction Centre of Excellence
Neath College
Newtown College
Pontardawe College
Swansea Construction Centre

